**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: YMESTYN CYNLLUN DECHRAU'N DEG

---

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn cynnig grant i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir drwy
   - ymestyn y cynllun llawn i weddill ardal Penygroes yn sgil gostyngiad yn y niferoedd cymwys i'r rhaglen bresennol
   - ymestyn yr elfen ofal plant i ardaloedd ychwanegol – Cam 3

2. Cymeradwyo'r Pennaeth Plant, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid i gyflwyno achosion busnes a derbyn cynigion grant ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn y Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir, ac i gyflwyno achosion busnes ar gyfer denu arian cyfalaf i gyflawni'r ymestyniad hwnnw ac i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ehangach yn y sir.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 7: CYNLLUN GWEITHREDU TAI

---

**PENDERFYNIAD**

1. Ymestyn cyfnod y Cynllun Gweithredu Tai am ddwy flynedd bellach hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol 2028/29.

2. Ymrwymo’r swm blynyddol arferol o £6m o’r gronfa Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ariannu’r ddwy flynedd ychwanegol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I alluogi’r Adran Tai ac Eiddo i flaengynllunio er mwyn sicrhau bod prosiectau a chynlluniau allweddol yn cael eu gwireddu yn amserol ac i’w llawn botensial.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 8: CYFRIFON TERFYNOL 2024/25 - ALLDRO REFENIW

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2024/25:

| | *Colofn A* | *Colofn B* | *Colofn C* | *Colofn CH* | *Colofn D* |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gor/(Tan) Wariant Gros 2024/25** | | **Addasiadau a Argymhellir** | | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** |
| | **£ '000** | **£ '000** | **£ '000** | **£ '000** | **£ '000** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | **857** | | | (757) | **100** |
| Plant a Theuluoedd | **3,805** | | | (3,705) | **100** |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | (15) | 15 | | | **0** |
| Addysg | (191) | 191 | | | **0** |
| Economi a Chymuned | **281** | | (281) | | **0** |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | **656** | | | (556) | **100** |
| Amgylchedd | **1,349** | | (1,100) | (149) | **100** |
| Tai ac Eiddo | (3) | 3 | | | **0** |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (48) | 48 | | | **0** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | (42) | 42 | | | **0** |
| Cyllid | (5) | 5 | | | **0** |

Gan nodi bod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, a'r Adran Amgylchedd yn 2024/25 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwywyd trosglwyddiadau ariannol canlynol (a eglurwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad) -

- Yn unol â phenderfyniad Cabinet 21 Ionawr 2025, peidio caniatáu i adrannau gario unrhyw danwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf drwy eithrio cymal 16.3.1.(C) o'r Rheoliadau Ariannol (Gweler colofn B yn y tabl uchod).

- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £281k uwchlaw’r taliad cytundebol i Gwmni Byw’n Iach, a defnyddio £1.1 miliwn o gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer i gyllido'r gorwariant yn y maes Gwastraff (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i’w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
    - defnyddio (£5.144 miliwn) o’r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2024/25.
    - gweddill y tanwariant o (£1.548 miliwn) ar gyllidebau Corfforaethol i’w drosglwyddo i’r Gronfa Trawsffurfio, i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.

Cymeradwywyd symiau i’w cario ’mlaen (y golofn “Gor/(Tan) Wariant Addasedig” yng ngholofn D uchod ac yn Atodiad 1).

Cymeradwywyd trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o’r cronfeydd:

- cynaeafu £1.275 miliwn o amrywiol gronfeydd a’i drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio.
- Dad-ymrwymo £375k o gynlluniau hanesyddol neu rai heb ymrwymiadau yn y Gronfa Trawsffurfio.
- Symud £2.5 miliwn o gronfa Cynorthwyo’r Strategaeth Ariannol i’r Gronfa Trawsffurfio fel eu bod ar gael ar gyfer blaenoriaethau’r Cyngor a chyllido bidiau un tro i'r dyfodol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau’r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Gofynnir i’r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25 sydd yn sail i’r datganiadau ariannol statudol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 9: RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2025)

---

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 ac a addaswyd ar 15 Hydref 2024 a'r 21 Ionawr 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
  - cynnydd o £4,409,000 mewn defnydd o fenthyca
  - cynnydd o £17,639,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - cynnydd o £75,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - lleihad o £422,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - lleihad o £3,898,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
  - cynnydd o £1,555,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 10: EISTEDDFOD YR URDD

**PENDERFYNIAD**

Penderfynodd y Cabinet i:

a. cymeradwyo ymrwymiad mewn egwyddor i wahodd yr Urdd i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwynedd yn 2028
b. Gymeradwyo cyfraniad o £200k o'r gronfa trawsffurfio fel cyfraniad tuag at gostau cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngwynedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Byddai lletya Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn arwain at alw ar adnoddau'r Cyngor ac felly gofynnir am sêl bendith y Cabinet.

Cyn cadarnhau ymrwymiad i letya Eisteddfod yr Urdd, bydd angen adnabod a chymeradwyo ffynhonnell ariannu fel cyfraniad ariannol Cyngor Gwynedd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.